**Memorandwm Esboniadol** i'r Cod Ymarfer er Lles Cathod

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan y Gangen Fframwaith Lles Anifeiliaid, Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol ac fe'i gosodir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad Ysgrifennydd y Cabinet / Gweinidog**

Mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn fy marn i yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig y Cod Ymarfer er Lles Cathod.

Lesley Griffiths AC
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**
12 Gorffennaf 2019

## 1. Disgrifiad

O dan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 (“y Ddeddf”), os oes rhywun yn gyfrifol am anifail mae dyletswydd gyfreithiol arno i gymryd camau rhesymol i sicrhau y diwellir anghenion lles yr anifail hwnnw. Mae'r Cod yn esbonio'r hyn sydd angen ei wneud i fodloni'r safon o ofal y gofynnir amdani gan y Ddeddf.

Nid yw torri'r Cod hwn yn drosedd ynddi’i hun ond, os caiff achos ei ddwyn yn erbyn rhywun am drosedd o dan y Ddeddf, efallai y bydd y Llys yn ystyried i ba raddau y mae wedi dilyn y cod wrth benderfynu a yw wedi cyflawni trosedd neu wedi rhoi'r gofal gofynnol. Gallai achosi dioddefaint diangen i unrhyw anifail fod yn drosedd ddifrifol o dan y Ddeddf.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Mae'r Cod yn cael ei osod gerbron o dan y 'Weithdrefn Negyddol'.

Mae'r Gyfarwyddeb Safonau Technegol - y Gyfarwyddeb - yn gosod ymrwymiad ar Aelod-wladwriaethau i roi gwybod i'r Comisiwn am reoliadau drafft sy'n dod o dan gwmpas y Gyfarwyddeb. Mae'r Cod newydd hwn yn diweddaru'r safonau a'r Rheoliadau cyfredol ond nid yw'n wahanol iawn i'r Cod presennol. Er na fydd torri'r Cod yn gyfystyr â throsedd gellid mewn unrhyw achos a ddygir o dan Ddeddf Lles 2006 ystyried i ba raddau y cydymffurfiwyd â'r Cod. Ni chafodd y Comisiwn ei hysbysu am y Cod cyfredol ac felly ni chaiff ei hysbysu am y Cod hwn chwaith.

## 3. Cefndir deddfwriaethol

Cyhoeddir y Cod Ymarfer hwn o dan adran 14 Deddf Lles Anifeiliaid 2006 ("y Ddeddf"). Mae'r Cod hwn yn gymwys yng Nghymru yn unig, cafodd ei gyhoeddi gan Weinidogion Cymru a daeth i rym ar 12 Tachwedd 2019 Mae’n berthnasol i bob ci rydych yn gyfrifol amdano.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Mae'r Cod Ymarfer er Lles Cŵn cyfredol yn adlewyrchu'r wyddoniaeth a'r ddeddfwriaeth a oedd yn gyfredol pan gafodd ei lunio a chafodd ei wneud o dan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006. Bu'n rhaid cynnal adolygiad i nodi unrhyw newidiadau yn y meysydd hyn ac i sicrhau bod y safonau'n dal i fod yn briodol.

Trwy beidio ag adolygu a newid y Cod yn rheolaidd i adlewyrchu newidiadau i'r ddeddfwriaeth a'r safonau arfer gorau gofynnol cydnabyddedig, gallai anifeiliaid fod mewn perygl.

Pwrpas y Cod yw sicrhau bod y rheini sy'n gyfrifol am anifeiliaid yn gwybod bod dyletswydd gyfreithiol arnynt i gymryd camau rhesymol i sicrhau y diwellir ei anghenion lles. Mae’r Cod Ymarfer yn esbonio’r hyn y mae angen i chi ei wneud i roi'r gofal sy’n ofynnol o dan y gyfraith.

Ar hyn o bryd mae adran 4 o Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006, sydd wedi cael ei chynnwys yn y cod drafft hwn, yn dweud y gall rhywun dderbyn dedfryd o uchafswm o 51 wythnos yn y carchar a/neu ddirwy. Yn dilyn cyhoeddiad DEFRA mae swyddogion yn aros i ddyddiad dod i rym gael ei gadarnhau ar gyfer eu Bil Lles Anifeiliaid (Dedfrydu) a fydd yn newid y modd o fynd â rhywun i'r llys a'r uchafswm cosb am droseddau o dan adran 4 o Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006. Pan fydd hyn wedi cael ei gadarnhau bydd y testun yn cael ei newid yn y Cod i adlewyrchu'r newid.

## 5. Ymgynghori

Bu Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda Rhwydwaith Lles Anifeiliaid Cymru, corff ymbarel sy'n cynrychioli mudiadau lles anifeiliaid yng Nghymru, i adolygu a diweddaru'r Cod at ddiben ymgynghori.

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus deuddeg wythnos rhwng 16 Hydref 2017 ac 8 Ionawr 2018. Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar wefan Llywodraeth Cymru a lluniwyd datganiad i'r wasg i hysbysu'r cyhoedd am ei lansio. Cysylltwyd â rhanddeiliaid h.y. asiantaethau gorfodi a grwpiau buddiant arbennig, yn unigol dros e-bost neu'r post.

Amgaeir crynodeb o'r ymatebion i'r Ymgynghoriad yn Atodiad 1.

Rhoddwyd ystyriaeth i'r sylwadau a'r awgrymiadau a ddaeth i law wrth ddiweddaru'r Cod ac ychwanegwyd nifer o gymalau o ganlyniad uniongyrchol i'r ymgynghoriad.

## 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Nid oes unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â gwneud y Cod, ac nid oes angen cynnal Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar hyn o bryd.